Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
HYDREF 2009

DYDDIAD	Nos Fercher, 20fed Hydref
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd Llanwnda
AELODAU'N BRESENNOL	Meurig Williams (cad), Tom Ellis, Gwilym V.Thomas, Gwilym L.Williams, Elwyn Jones, Jason Hunt
HEFYD YN BRESENNOL	Aeron M.Jones, Cynghorydd Gwynedd Matthew Tapping, CBM, Heddlu Gogledd Cymru Bethan Williams, clerc

1. **Croeso**

2. **Heddlu**
   Cyflwynodd Matthew Tapping ei hun i'r aelodau. Fod ydy'r CBM newydd dros yr ardal. AMJ yn awyddus i gynnal cyfarfodydd efo Matthew yn y pentrefi i ddangos ymhle y mae'r problemau mwyaf. Adroddodd GVT fod ambell i broblem yn codi efo defaid yn yr ardal, ac y byddai'n gwerthfawrogi cael cefnogaeth yr heddlu i geisio dwyn perswâd ar Gyngor Gwynedd i orffen y gwaith ar y gridiau gwartheg yn Fron a Carmel.
   Addawodd Matthew Tapping y byddai'n cadw mewn cysylltiad, a bod croeso i unrhyw un gysylltu â fo yn y brif swyddfa ym Maesincla, a maes o law mae'n meddwl y bydd ei swydd o'n cael ei lleoli ym Mhenygroes. Gadawodd y cyfarfod.

3. **Ymddiheuriadau**
   Elin Evans a Huw Williams

4. **Datgan Buddiant**
   Aeron M.Jones – cynllunio

5. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd fod cofnodion mis Medi yn gywir.

6. **Materion i'w trafod:**
   a. Cyngor Gwynedd – ymateb gan Meirion Williams ynglyn a nifer o ddiffygion yn yr ardal 1. Goat – angen torri'r coed yn eu holau i gael gwell gweledegd – nododd Meirion Williams fod cynlluniau ar y gweill i gysylltu efo'r perchnogion eto, gan nad ydy'r coed wedi'u torri'n ddigonol; 2. Eithin yn Rhosgadfan – wedi gwrthod eu torri ar hyn o bryd, ond wedi addo y bydd y Gang Cymunedol yn eu tocio pan fyddant yn yr ardal nesa. 3. Dwr ar Lôn Bwmp – mynd i fonitro'r sefyllfa. 4. Chwyn yn Rhosgadfan – nododd Meirion fod y Gang Cymunedol wedi bod yn Gwelfor eisoes, sicrhau fod llefydd eraill ar y rhestr ar gyfer yr ymweliad nesaf. 5. Gweleded Junction Saron – pasio i Dafydd Wyn Williams. 6. Junction Dinas – Cyngor Gwynedd wedi gofyn wrth Asiantaeth Cefnffyrdd i gael newid lein y droedffordd ond nid ydynt wedi cael ymateb hyd yma, yn y cyfamser maent wedi trwsio'r cyrbiau. 7. Arwydd Rhostryfan – ar y rhestr. 8. Drych Ty Nant – gwrthod rhoi drych newydd am nad yw'n gweld problem efo'r un presennol. 9. Gwrychoedd Lôn Cae Garw – arolygwr i fod i fynd yn

ôl at y perchennog eto. 10. Dwr ger Maen Brith – cynllun ar raglen eleni ond ddim yn gallu cadarnhau pryd y bydd yn digwydd. 11. Dwr wyneb ffordd Felinwnda – wedi gosod grid gwli ar y safle ac yn mynd i ail wynebu'r ffordd er mwyn cyfeirio'r dwr at y grid. 12. Polion ffens Ffrwd Cae Du – yn y broses o'u cwblhau.

b. Cyngor Gwynedd – gwahoddiad i gyfarfod rhwng y Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned – digwydd yr un noson â'r pwyllgor.

c. Cais am safle bws. Clerc wedi gwneud cais i gael cysgodfannau yn Tanrallt, Rhostryfan ac un arall ger Gwelfor, Rhosgadfan.

d. TE – arwyddion pobl yn croesi'r ffordd newydd i fyny o Goat Llanwnda. Nododd TE fod damwain wedi digwydd ar y rhan hon o'r ffordd yn ddiweddar, ac mae angen atgoffa'r Asiantaeth Ffyrdd fod gor-yrru yn ffactor ar y ffordd yma, a bod gwir angen arwyddion yn hysbysu gyrrwyr fod cerddwyr yn croesi'r ffordd yma. Clerc wedi sgwennu at yr Asiantaeth Ffyrdd eto. Wedi cael cadarnhâd gan yr Heddlu fod bwriad gan yr Asiantaeth Ffyrdd i osod arwyddion yn ystod y ddau fis nesa.

e. GVT – parcio yn Gwelfor. Carafan a bagiau tywod wedi'u gadael yno. Clerc wedi cysylltu â'r Adran Dai. AMJ yn mynd i ddilyn fyny materion Gwelfor, ee bagiau tywod, bocs ceffylau yn parcio yno.

f. ElJ - Cwynion fod llwybr wedi'i gau ger Waun Bant oherwydd fod ffens ieir wedi'i osod ar draws. Clerc wedi rhoi gwybod i'r swyddog llwybrau.

g. GVT - Cynllun Uwchgwyrfai – clerc wedi danfon llythyr at gymdeithas y porwyr i gefnogi eu cais i gadw'r ffens ger Pen Muriau, gan efallai roi giatiau yn hytrach na chamfeydd.

h. TE – gofyn pam nad ydy Cyngor Gwynedd yn gweithredu ceisiadau'r Cynghorau Cymuned. Awgrymu y dylai'r cynghorwyr yn hytrach na swyddogion wneud y penderfyniadau. Ddim yn fodlon ar y drefn bresennol.

i. Cynulliad – llythyr yn egluro pam na chafwyd fersiwrn Gymraeg o ddogfen ymgynghori.

j. Hywel Williams AS – copi o lythyr gan yr Adran Gynllunio ynglyn â Dwynfa.

k. Llythyr gan blant Ysgol Rhostryfan yn cwyno am gyflwr mynwent Capel Horeb, Rhostryfan

l. Llythyr Bwrdd yr Iaith ynglyn ag ymateb y Cynulliad i'n cwynion am adroddiadau uniaith Saesneg. Angen ymateb gan ddweud ein bod yn siomedig gyda'r ateb ond yn derbyn yr esboniad.

m. Carter Jonas – cafwyd ymateb i'n cais i brynu mwy o dir ar gyfer Mynwent Cefnfaes, ac maent yn tybio fod y tir werth oddeutu £10,000. Teimlai'r aelodau fod hyn yn ormod, ac mae'r clerc yn mynd i gael cyngor gan Un Llais Cymru.

7. **Derbyn Adroddiadau:**

8. **Is-bwyllgorau:**

9. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	22,938.81
Cyfri Siec:	381.59
CYFANSWM	23,320.40

Taliadau:	
Rowndwood Tree Technology	483.00
Cyflog/costau clerc mis Hydref	403.90
Cyllid y Wlad	88.40
Canolfan Llanwnda – penderfynwyd talu am logi'r neuadd pan drefnwyd cyfarfod cyhoeddus i drafod Dwynfa yno'n ddiweddar.	15.00
Siôn Owen	635.00
Viking Direct	41.74

Dyfarfniad cyflog clerc – NALC – penderfynwyd codi cyflog y clerc yn unol â'r canllawiau, yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2009.

Ceisiadau am nawdd - i'w hystyried ym mis Chwefror:
Mencap
Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010
Gwyl Gerdd Dant Glannau Menai 2010
Aelwyd yr Urdd Dyffryn Nantlle
Cymorth i Ddioddefwyr
Ysgol Feithrin Llanwnda
Clwb Cadfan, Rhosgadfan
Clerc i ysgrifennu atynt yn nodi mai ym mis Chwefror yn unig y trafodir ceisiadau nawdd.

10 **Materion Cynllunio**
Apêl Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Tan y Ffynnon, Rhos Isaf.
Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd – mabwysiadu
Prosiect Amgylcheddol Canol Tref Caernarfon

Ceisiadau:
Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO9A/0449/24/MG
Materion a gadwyd yn ôl o dan CO8A/0410/24/AM – safle Capel Gorffwysfa, Rhosgadfan
CO9A/0469/24/LL
Cais ôl-weithredol i newid lleoliad sied amaethyddol – Cae Penrhos, Rhosgadfan
CO9A/0465/24/LL
Cais ôl-weithredol i greu modurdy – Glan Llyn, Rhostryfan

Cynllun canlynol yn rhy fawr, ac angen gofyn pam na gofrestwyd yr adeilad hwn, o gofio ei fod yn un o'r adeiladau hynaf yn y pentref: CO9A/0426/24/LL
Cais i ddymchweld ac ail adeiladu ty deulawr – Maen Llwyd, Rhosgadfan

Eisoes wedi'u caniatau:
6 ty fforddiadwy, Glanrhyd Isaf, Llanwnda

11 **Gohebiaeth:**

a. Cyfadran yr Amgylchedd – Ffliw Bydeang – gwarchod trefniadau
b. Llwyddo yng Ngwynedd – holiadur
c. SLCC – cynigion i arbed arian wrth archebu offer
d. Cylchgronnau

12 **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a. ElJ – angen biniau grit ger mynedfa Lôn Llwyn Onn ac ar y bont yn arwain o Bro Wyled tuag at y ffordd fawr

b. JH – angen trwsio'r ffens ar Lein Bryngwyn – gofyn os oes modd cael rhai haearn i atal plant rhag eu torri a'u llosgi fel sydd wedi digwydd efo'r rhai presennol

c. GVT – rhai pentrefwyr Rhosgadfan wedi nodi eu dymuniad i gael hysbysfwrdd yn y pentref. Byddai'r clerc yn falch iawn o gael gwybod gan y pentrefwyr os oes diddordeb ac yn lle fyddai'r lleoliad delfrydol.

d. Rhandir Mwyn, Rhostryfan – deallir fod lamp angen sylw yma.

e. Mae baw ci yn broblem yn yr ardaloedd i gyd. Clerc i ffonio Cibyn i geisio cael rhywun i lanhau.

f. MW – nododd fod channel concrid wedi malu ger Bodfan/Llys Awen/Bryn Gwynt, angen sylw.

g. JH – ymddiheuro am mis nesa.

Daeth y cyfarfod i ben am 9